

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 3ydd 2014 yn Festri Glanrafon. Yn bresennol oedd Eilir Rowlands, Gwenda Evans, Eifion Davies, Tina Davies, Maldwyn Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gethin Morris, Alwyn Roberts, Gwenda Morris ag Alwyn Jones.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Mynwent Frongoch.

Roedd Alwyn Jones, Gethin Morris a'r clerch wedi ymweld a'r fynwent a cytunwyd bod angen torri'r coed ar ochr y pentref. Cytunwyd i ofyn am bris i dorri'r coed a hefyd atgyweirio waliau cerrig o gwmpas y fynwent.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn

- i) Cafwyd adroddiad o'r datblygiadau diweddaraf a gwahoddiad i'r diwrnod agored Medi 12fed.
- ii) Derbyniwyd eost yn gofyn os oedd gan y Cyngor ddiddordeb mewn trafod gyda'r Cynghorau eraill i weld os oedd posib gwneud arbedion gyda'r gwasanaethau a ddefnyddi'r gyda'r mynwentydd. Cytunwyd i fynychu'r cyfarfod.

b) Cyngor Gwynedd.

- i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Medi 2014.

c) Un Llais Cymru

- i) Gwahoddiad i'r Gynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2014 a chopi o'r cynigion a gyflwynir.
- ii) Gwybodaeth am y grantiau bach sydd ar gael gan yr Ymddiriedolaeth 'People's Postcode'.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

- C14/0665/04/LL - Codi dau estyniad llawr cyntaf i gefn ac ochr yr annedd. Pencefn, Sarnau.
C14/0712/04/YA - Codi adeilad amaethyddol. Cae Dan Tŷ, Llwyn Iolyn, Cefnddwysarn.
C14/0750/04/LL - Cynllun pŵer trydan dwr. Stad Rhiwlas, Nant Gau, Cwmtirmynach
C14/0718/04/LL -Trosi adeiladau allanol i ddwy uned wyliau hunan cynhaliol. Ty Hen, Sarnau.
C14/0794/04/TR - Codi llinell drydan. Maes Carafanau Llawr Betws, Glanrafon.

Cytunwyd i gefnogi'r ceisiadau.

Materion Ariannol.

Datganiad Blynyddol.

Derbyniwyd y Datganiad yn nol gan UHY Hacker Young gyda'r cadarnhad olaf ei fod yn gywir. Cytunwyd i arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad'.

Cynllun Diffyg yn y Cyfrif Claddu, Cyngor Gwynedd.

Roedd y clerch wedi paratoi cyfrifon y fynwent ar gyfer 2013-14. Cytunwyd i anfon cais am ad-daliad o'r golled a wnaed. Gofynnwyd i'r clerch wneud ymholiadau ynglyn a'r grantiau oedd ar gael cyn diwedd Mawrth 2015 ar gyfer gwaith cyfalaf.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) UHY Hacker Young

ii) Partneriaeth Penllyn

iii) A G Evans

Materion lleol.

Gwrych llwybr Llanfor i Bala.

Gofynnwyd i'r clerc ofyn i Gyngor Gwynedd dorri'r gwrych ar hyd y llwybr.

Hen Bont pentref Llanfor.

Mynegwyd pryderon am gyflwr y bont gan fod rhai o gerrig wedi disgyn i'r afon islaw. Gofynnwyd i'r clerc basio'r mater ymlaen i sylw Gyngor Gwynedd.